Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol – Penodi 4$^{ydd}$ Aelod** |
| **Dyddiad:** | **22 Chwefror 2010** |
| **Gan:** | **Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol** |

Ar 17 Tachwedd 2009, ysgrifennais ynglŷn â phenodi Cadeirydd y Comisiwn, yr Athro Geoffrey Pearson, ynghyd â Julie Jones OBE a Rhian Huws Williams.

Nawr, mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod pedwerydd aelod yn cael ei benodi i'r Comisiwn, sef Mr Phillip Robson.

Gweithiwr cymdeithasol proffesiynol cymwysedig yw Phillip sydd wedi cael nifer o swyddi fel ymarferydd yn hen Gyngor Sir Gwent a hefyd ym Mhowys. Mae wedi arbenigo ym maes amddiffyn plant, ac roedd yn weithiwr cymdeithasol gweithredol am ddeuddeg mlynedd. Yn 2001, daeth Phillip yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Powys, ac fe'i penodwyd wedyn yn Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Lles yn 2005. Roedd y swydd yn cynnwys rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Addysg.

Rwy'n hyderus y bydd profiad Phillip yn cyfrannu mewn ffordd amhrisiadwy i waith y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn wedi dechrau ar ei waith, a gofynnir iddo roi adroddiad imi erbyn mis Tachwedd 2010.